Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jim Harra
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Strategaeth Cwsmeriaid a Chynllunio Trethi
CThEM
2E/07, 100 Parliament Street
Llundain
SW1A 2BQ

13 Rhagfyr 2017

Annwyl Jim

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynglŷn ag amcangyfrif diweddaraf CThEM o'r costau ar gyfer cyflawni agweddau ariannol Deddf Cymru 2014, gan gynnwys pontio i'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru a rhoi Cyfraddau Cymru'r Dreth Incwm ar waith.

Rwy'n meddwl y dylid mynd ati'n drefnus i ddatganoli trethi, a gwneud hynny mewn modd sydd mor gosteffeithiol â phosibl. Arian a fyddai'n mynd tuag at gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fel arall yw'r arian sy'n cael ei wario gennym ar ddatganoli trethi. Rwy'n hynod siomedig, felly, fod yr amcangyfrif diwygiedig ar gyfer y gwaith sy'n angenrheidiol i bontio i'r Dreth Trafodiadau Tir gymaint uwch na'r amcangyfrif – a ddisgrifir fel yr uchafswm cost – a ddarparwyd gan CThEM ym mis Mehefin. Rwy'n croesawu eich ymrwymiad i barhau i dorri costau i'r eithaf gan ddarparu hefyd y seilwaith sydd ei angen i alluogi CThEM ac Awdurdod Cyllid Cymru i gydweithio ar gydymffurfiaeth. Edrychaf ymlaen at gael gwybod eto am y cynnydd diweddaraf mewn perthynas â hyn.

Rwy'n ddiolchgar am yr amcangyfrif o arbedion i CThEM o beidio â gweinyddu Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi bellach yng Nghymru – arbedion a fydd yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn croesawu cael cadarnhad o'r ffigur terfynol ar gyfer yr arbedion hyn cyn 1 Ebrill 2018. Hoffwn ddiolch ichi hefyd am yr amcangyfrif diweddaraf o'r costau ar gyfer gweinyddu Cyfraddau Cymru y Dreth Incwm ac rwy'n nodi ei fod yn sylweddol is na'r gost o weithredu Cyfraddau'r Alban y Dreth Incwm. Hyderaf felly y bydd swyddogion CThEM a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos i gadw costau cyffredinol datganoli trethi mor isel â phosibl. Bydd y costau hyn yn cynnwys y costau pontio i'r trethi datganoledig ac, fel a ddaw'n gynyddol bwysig, costau gweithredu Cyfradd Cymru y Dreth Incwm. Rwy'n disgwyl i'r costau hyn fod ar waelod yr ystod £5-10m

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a byddwn yn croesawu diweddariadau rheolaidd ar sut, mewn gwirionedd, y bydd Llywodraeth Cymru yn elwa ar systemau TG newydd CThEM.

Byddwn yn falch o gyfarfod â chi ar 25 Ionawr i drafod y materion uchod ac eraill. Bydd fy swyddfa mewn cysylltiad maes o law. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn ac – ar yr amod eich bod chi'n cytuno – eich llythyr gwreiddiol chithau i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn gywir

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance